**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **23 Mawrth 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Teitl:** **Adroddiad SAC Asesu Cydnerthedd Ariannol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau asesiad o 'gydnerthedd ariannol' y cyngor yn dilyn astudiaeth genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I gyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar astudiaeth genedlaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl 'Financial Resilience Assessment Denbighshire County Council' ynghlwm.

Cwblhawyd yr asesiad yn ystod y cyfnod Mai i Hydref 2015, ac roedd yn dilyn i fyny materion a amlygwyd yn y gwaith ar sefyllfa ariannol 2014-15. Roedd ffocws y gwaith ar gyflwyno cynlluniau arbedion 2014-15, a'r cyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith. Yr un argymhelliad yw sefydlu polisi ffurfiol ar greu incwm a chodi tâl a chofrestr o'r taliadau a osodir gan adrannau. Bydd hyn yn cael sylw fel rhan o broses y gyllideb 17/18.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth a llywodraethu cadarn yn sail i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol o drefniadau ariannol y cyngor. Mae polisi'r cyngor ar ffioedd a thaliadau wedi ei nodi yn y Rheoliadau Ariannol ac mae wedi'i gynnwys mewn rowndiau cyllideb blynyddol. Bydd hyn yn cael ei wella fel rhan o broses 17/18 a bydd cofrestrau adrannol yn cael eu cynnal.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r astudiaeth yn amlinellu risgiau ac argymhellion ar lefel genedlaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adroddiad a gynhyrchwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.